Dyma Steve Martin yn siarad am adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar 'Bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEETS)'

Beth yw prif ddarganfyddiadau'r adroddiad hwn?

Fe wnaethon ni edrych ar gynlluniau Llywodraeth Cymru i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, sydd hefyd yn cael ei gyfeirio ato fel bod yn 'NEET', a daethom i'r casgliad eu bod nhw mewn sefyllfa gref o ran darparu ar gyfer y niferoedd NEET mewn pobl ifanc rhwng 16-18 oed ond nid yw eu cynlluniau'n ddigon eglur i leihau'r niferoedd sydd yn y grŵp oedran uwch – 19-24 oed.

Fe edrychom ni ar eu strategaeth, eu Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, a daethom i'r canlyniad fod seiliau cadarn i'r strategaeth, bod ganddi gefnogaeth cynghorau a chyrff eraill sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaethau a bod cerrig milltir amlwg i fesur pa mor dda mae'n mynd rhagddo. Ond fel dwi'n ei ddweud, nid yw'r cynlluniau'n ddigon cryf ar gyfer y grŵp oedran 19-24 ac roedden ni hefyd yn meddwl nad oedd Llywodraeth Cymru wedi gwneud digon i amcangyfrif costau'r cynlluniau ar y cychwyn, ac nad oeddent wedi sefydlu digon o fesuriadau i sicrhau eu bod nhw'n cael y gwerth am arian gorau o'u gwariant.